

PRIFYSGOL BANGOR - GWYBODAETH I WESTEION

Diolch i chi am archebu lle gyda ni. Isod fe gewch wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer eich arhosiad gyda ni.

Gwasanaeth / Cyfleusterau

Darperir cyfleusterau gwneud te a choffi, Wi-Fi am ddim, dillad gwely a thywel (a newidir bob 5 diwrnod).

Byddwch yn cael defnyddio cyfleusterau cegin a rennir, sy'n cynnwys oergell, rhewgell, hob, popty, popty microdon, tostiwr a thegell. Nid ydym yn darparu unrhyw offer cegin, llestri na chyllyll a ffyrc. Byddwch yn rhannu'r cyfleusterau cegin hyn gyda gwesteion eraill yn y fflat.

Yn ogystal, mae yna ddau olchdy at ddefnydd gwesteion. Mae un ger y Dderbynfa a'r llall gyferbyn â'r Swyddfa Ddiogelwch (Rhif 8 ar y map). Gall gwesteion brynu cardiau ar gyfer y peiriannau golchi o beiriant yn y Swyddfa Ddiogelwch. Mae system ar-lein i ychwanegu credyd i'r cardiau ar gael wedyn.

Hygyrchedd

Cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw ofynion penodol o ran hygyrchedd.

Parcio Ceir

Mae'n rhaid dangos Trwydded Barcio ddilys ar gerbydau a gaiff eu parcio ar eiddo'r brifysgol. Fe gewch drwydded gydag allwedd eich ystafell. Sylwer na chaiff gwesteion barcio ym maes parcio Canolfan Brailsford.

Cyrraedd - 2pm - 8pm, Dydd Llun – Dydd Sul

Casglwch eich allwedd ystafell o'r Swyddfa Neuaddau ar ôl 2pm (Rhif 15 ar y map). Adeilad Idwal, Bangor LL57 2GP

Cyrraedd yn hwyr (ar ôl 8pm)

Bydd swyddfa'r Neuaddau'n cau am 8pm. Os ydych chi'n cyrraedd yn hwyrach, rhowch wybod cyn 5pm i Gynadledda ar 01248 38 8088 neu gynadleddau@bangor.ac.uk. Os ydych chi'n cyrraedd dydd Sadwrn neu ddydd Sul, rhowch wybod i Gynhadleddau erbyn 5pm ddydd Gwener cyn i'r swyddfa gau am y penwythnos.

Gadael - 9.30am

Rhaid dychwelyd eich allweddi i swyddfa'r Neuaddau erbyn 9:30am ar ddiwrnod eich ymadawiad neu gadewch eich allweddi yn y bwch allweddi y tu allan i'r Swyddfa Neuaddau. Codir tâl o £20.00 am allweddi a gollwyd.

Wi-fi

Cewch ddefnyddio rhwydwaith y brifysgol am ddim. Cysylltwch â derbynfa'r safle i gael enw defnyddiwr a chyfrinair dilys. Bydd angen i chi ddarllen ein polisi defnydd derbyniol a'i lofnodi.

Gwres

Rheolir y system wresogi gan amserydd. Gwnewch yn siŵr bod soced y gwresogydd ar 'ON' cyn rhoi gwybod am unrhyw broblemau gwresogi. Yn ogystal, peidiwch byth â gorchuddio gwresogyddion trydan neu sychu pethau arnynt gan y gallant fynd ar dân.

Ysmygu

Mae'r brifysgol y gwahardd ysmygu a theclynnau ysmygu trydan yn adeiladau'r brifysgol ac o fewn 5 metr iddynt.

Diogelwch cyffredinol rhag tân

Caiff systemau larwm tân eu profi'n wythnosol yn y prynhawn a byddant yn seinio am gyfnod byr yn unig. Os clywch y larwm tân unrhyw adeg arall, neu os yw'n seinio'n barhaus, ewch allan o'r adeilad fel y nodir dros y ddalen.

Gofynnir i chi ymgylfarwyddo â'r drefn gadael pe bai tân sydd i fyny yn eich ystafell a chadw llwybrau ac allanfeydd gadael pe bai tân yn glir bob amser. Yn ogystal, peidiwch â llosgi canhwyllau, aroglarth neu bethau tebyg, a **PHEIDIWCH BYTH â gorchuddio synwryddion mwg** (gofynnir i westeion fydd yn gwneud hynny adael).

Cawod

Cadwch ddrws yr ystafell gawod wedi cau gan y gall stêm o'r dŵr poeth weithredu'r system tân.

Trydan

Dim ond offer trydanol arferol, fel peiriannau sychu gwallt, eillio, gliniaduron a gwefru ffonau all gwsteion eu defnyddio. Cofiwch ddiffodd offer cynhesu ar ôl eu defnyddio a pheidio byth â'u gadael pan na fyddwch yno e.e. gwresogydd ystafell, sychwyr gwallt a thegell. Os ydych yn cael problem gydag offer trydanol y brifysgol, cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau, Llundun - Gwener, 9am - 5pm ac â'r Swyddfa Ddiogelwch tu allan i'r oriau hyn.

Diogelwch

Dylech gloi drws eich ystafell wely a drws y coridor bob amser. Peidiwch â gadael pethau gwerthfawr yn y golwg a chysylltwch â Diogelwch yn syth os oes gennych bryderon neu os gwelwch unrhyw beth amheus.

Eiddo Personol

Peidiwch â gadael unrhyw eitemau personol yn y coridorau neu'r gegin. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i anfon eiddo a adewir ar ôl yn ôl i westeion, ceir gwared ar eitemau na chaiff eu hawlio o fewn 3 mis.

RHIFAU DEFNYDDIOL

Swyddfeydd Diogelwch	01248 - 38 3472 / 38 2795 / 38 8041	24awr
Siop	01248 38 8626	8am – 10pm
Swyddfa Gynadleddau (Llundun-Gwener)	01248 38 8088	9am – 5pm
Switsfwrdd y brifysgol	01248 35 1151	9am - 5pm
Canolfan Groeso	01492 53 1731	9am – 5pm
NHS Direct	111	24awr
Tacsis	ACE – 01248 35 53 55 / Chubbs 01248 35 35 35	24awr

MEWN ARGYFWNG / TÂN

Mewn argyfwng (e.e. eisiau Cymorth Cyntaf) ffoniwch Diogelwch ar 3472 / 2795 / 8041 os ydych yn defnyddio'r ffôn yng nghyntedd yr adeilad, neu'r rhifau 01248 uchod os ydych yn defnyddio ffôn symudol. Mae 333 hefyd yn cysylltu â Diogelwch a'n rhif sy'n cyfateb i 999.

Os byddwch yn darganfod tân:

- Canwch y larwm yn y blwch larwm agosaf a gwagio'r adeilad yn syth.

Os bydd y larwm tân yn seinio:

- Peidiwch â defnyddio'r lifft.
- Gadewch yr adeilad trwy'r allanfa dân agosaf (*peidiwch ag aros i gasglu eiddo personol*).
- Ewch i'r man ymgynnull a disgwyl am gyfarwyddiadau pellach.
- Peidiwch byth â dychwelyd i'r adeilad nes rhoddir caniatâd i chi wneud hynny gan y Frigâd Dân neu staff diogelwch y brifysgol.

Os na ellwch fynd allan o'r adeilad ar hyd y grisiau:

- Ewch i'r man aros diogel.
- Gweithredwch yr intercom sy'n cysylltu â'r staff diogelwch.
- Disgwylwch am gyfarwyddyd pellach gan y staff diogelwch.



Man Aros Diogel Braint: Ger y lifft (nid y llawr gwaelod)